

Title	Ar drywydd Magna, 'chwaer Dewi Sant', ac eglwys ddiflanedig yn Nyffryn Teifi
Creators	Lewis, Barry James
Date	2018
Citation	Lewis, Barry James (2018) Ar drywydd Magna, 'chwaer Dewi Sant', ac eglwys ddiflanedig yn Nyffryn Teifi. <i>Studia Celtica</i> , 52. (Accepted Version)
URL	<a href="https://dair.dias.ie/id/eprint/997/">https://dair.dias.ie/id/eprint/997/</a>
DOI	<a href="https://doi.org/10.16922/SC.52.2">https://doi.org/10.16922/SC.52.2</a>

# Ar drywydd Magna, ‘chwaer Dewi Sant’, ac eglwys ddiflanedig yn

## Nyffryn Teifi

*Magna siur Dauida Cilli Mune* ‘Magna, chwaer Dewi o Fynyw’: felly yr enwir y wraig ddirgel hon yn yr unig gyfeiriad ati sydd ar glawr.<sup>1</sup> Gwyddel oedd awdur y geiriau, sydd ar glawr mewn llawysgrif o’r ddeuddegfed ganrif. Ni ddywed neb arall fod gan Dewi Sant chwaer o’r enw *Magna* nac, o ran hynny, fod ganddo chwaer o gwbl. Eto, mae’r cyfeiriad unigryw hwn yn gofyn am eglurhad. Pa sail sydd i fodolaeth Magna? Sut y daeth ysgolhaig o Iwerddon i glywed amdani, a hithau’n absennol o bob fersiwn o fywgraffiad Dewi y gwyddom amdanynt, yn Lladin ac yn Gymraeg? Os nad oedd Magna yn gymeriad hanesyddol dilys, pwy a’i rhithiodd, a phaham?

Gellir ateb y cwestiwn cyntaf yn ddi-oed. Mae’n annhebygol iawn fod sail hanesyddol i Magna: cafodd ei dyfeisio. Er bod y ffynonellau sydd gennym yn anfoddhaol ar sawl cyfrif, maent yn ein galluogi i weld o ble y cafwyd egin y syniad ac i olrhain y trywydd testunol trofaus nes cyrraedd y pwynt lle y crewyd ‘Magna, chwaer Dewi o Fynyw’. Yn sgil hynny, mae modd hefyd cynnig ateb rhannol i’r cwestiynau eraill.

Ni fydd yr un o’r ffynonellau a drafodir isod yn dod â ni’n agos at oes Dewi Sant ei hun yn y chweched ganrif. Perthynant oll i gyfnodau diweddarach o lawer. Mae hynny’n rhwystr cyfarwydd i bawb sy’n astudio llenyddiaeth fucheddol Cymru: buchedd Ladin Dewi gan Rhygyfarch o

---

<sup>1</sup> Pádraig Ó Riain (gol.), *Corpus Genealogiarum Sanctorum Hiberniae* (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies, 1985), td. 179 (§722.94). Traddodwyd fersiwn cynharach o’r papur hwn mewn seminar yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ar 5 Tachwedd 2015, ac rwyf yn ddiolchgar i’r gynulleidfa am eu hymatebion. Diolchaf hefyd i Marged Haycock am ddarllen drafft o’r papur hwn a chynnig sylwadau gwerthfawr, ac i’r adolygydd dienw. Arnaf i y mae’r cyfrifoldeb am y cynnwys.

Lanbadarn Fawr a buchedd Ladin Cadog gan Lifris o Lancarfan yw'r rhai cynharaf sydd gennym, y ddwy'n gynnyrch degawdau olaf yr unfed ganrif ar ddeg neu ddechrau'r ddeuddegfed ganrif. Mae'r tlodi hwn yn cymharu'n anffafriol â'r nifer go dda o fucheddau a erys o Iwerddon o'r seithfed ganrif ymlaen, ac o Loegr o ddechrau'r wythfed, heb sôn am gynnyrch toreithiog y Cyfandir. Ond mae'n rhesymol tybio fod a wnelom â bwlech yn y trosglwyddiad yn hytrach na diffyg go-iawn.<sup>2</sup> Nid o wagle y daeth y bucheddau cyntaf sydd gennym heddiw. Mae'r cyfrodedd o draddodiadau a gydblethwyd ynddynt yn tystio i ddatblygiad dros gyfnod hir, ar lafar ac mewn llyfr. Un rheswm dros astudio hanes Magna, 'chwaer Dewi Sant', yw ei bod yn ffrwyth cyfnod tywyll cyn llunio'r bucheddau cynharaf sydd gennym, ac felly'n tystio i fwrlwm hagiograffeg na fyddai'n hawdd ei amgyffred fel arall.

Heblaw'r goleuni y mae'n ei daflu ar y gweithgarwch hwnnw, a yw achos Magna yn haeddu sylw? Wedi'r cyfan, ni fodolodd y wraig ei hun, ac nid oes dim newydd yn y canfyddiad fod y llenyddiaeth am y seintiau, yn enwedig y rhannau hynny a gyfansoddwyd amser maith ar ôl marwolaeth y gwrthrychau, yn glytwaith o hanesion dychmygol ac o fotiffau a ailgylchwyd o fannau eraill. Eto, mae dyfeisgarwch y bucheddwyr yn teilyngu sylw. Dilynent batrymau, nid penrhyddid di-ffrwyn. Yn y gwledydd Celtaidd, byddai awduron y bucheddau'n aml yn dangos

---

<sup>2</sup> Trafodir bucheddau cynnar Cymru gan John Reuben Davies, 'The saints of south Wales and the Welsh church', yn Alan Thacker a Richard Sharpe (goln), *Local Saints and Local Churches in the Early Medieval West* (Oxford: Oxford University Press, 2002), tt. 361–95. Dangosir yno (tt. 380–4) fod tystiolaeth mewn sawl ffynhonnell gyfoes yn ategu bodolaeth bucheddau cynnar. Gellid ychwanegu'n fawr at y dystiolaeth pe tynnid ar ddeunydd a gadwyd mewn testunau mwy diweddar ond sydd ei hun yn debygol o fod yn hŷn. Am ffawd llawysgrifau cynnar Cymru, gw. Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 3–4, 13, 38–9 a Patrick Sims-Williams, 'The uses of writing in early medieval Wales', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998), tt. 15–38.

diddordeb mawr mewn etymoleg, ac yn enwedig yn y berthynas rhwng enwau lleoedd a chwedloniaeth. Eglurent enwau lleoedd â hanesion lliwgar, hawdd eu deall, a rhithient gymeriadau newydd allan o'r enwau hynny. Mae'n ddull sy'n ymdebygu mewn modd trawiadol i fethodoleg yr awduron a ysgrifennai hanes secwlar, ac yn wir roedd gorgyffwrdd helaeth rhwng amcanion a thechnegau'r ddau *genre*. Mae'n dra phwysig sylweddoli mor gyson y byddai awduron canoloesol, wrth adlunio'r gorffennol, yn ateb anghenion cyfoes, boed eu neges yn grefyddol neu'n wleidyddol. Bathwyd y term 'ffug-hanes' – *pseudo-history* – i ddisgrifio'r math hwn o ysgolheictod a'r gweithiau a darddodd ohono.<sup>3</sup> Nid yw'r term yn gwbl foddhaol, oherwydd hanes oedd y cyfan ym marn awduron y cyfnod, ac mae perygl y gallai tinc negyddol y rhagddodiad amharu ar ein dealltwriaeth o amcanion ac egwyddorion yr awduron. Bid a fo am y term, mae'r syniadaeth hon yn mynnu sylw, gan mor beryglus yw cyffwrdd â thestunau hanesyddol a luniwyd cyn y cyfnod diweddar heb fod yn ymwybodol ohoni. Mae hanes Magna yn rhoi cyfle gwiw inni weld ysgolheictod etymolegol, ffug-hanesyddol ar waith. Yn wir, gellid dadlau bod Magna yn fwy diddorol o gymryd mai creadigaeth ydyw nag y byddai pe bai'n gymeriad o gig a gwaed.

Yma, byddaf yn olrhain y dystiolaeth am Magna. Efallai y bydd y trywydd braidd yn droellog, heb lawer o sôn am Magna ei hun yn ystod camau cyntaf y daith. Fe ddaw hi i'r golwg yn y man.

### 1. *Bonedd y Saint*

---

<sup>3</sup> Am ddisgrifiad clasurol, heriol o oblygiadau 'ffug-hanes', gw. David N. Dumville, 'Sub-Roman Britain: History and Legend', *History*, New Series, 62 (1977), 173–92; adargraffwyd yn ei *Histories and Pseudo-histories of the Insular Middle Ages* (Aldershot: Variorum, 1990), ysgrif I. Cymharer hefyd James E. Fraser, *From Caledonia to Pictland: Scotland to 795* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2009), tt. 1–11, am grynhoad gloyw.

Catalog o achau seintiau Cymru yw *Bonedd y Saint*, sydd ar gael mewn mwy nag 80 o lawysgrifau o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen. Nid hawdd yw penderfynu pa bryd y crewyd y fersiwn gwreiddiol ohono, ond mae sawl nodwedd ar y cofnodion craidd na allant ddyddio i gyfnod cyn *c.* 1140, os nad *c.* 1150, ac ar y llaw arall, mae yno hefyd olion hen orgraff sy'n awgrymu iddo gael ei gyfansoddi beth amser cyn y copi cynharaf sydd ar glawr. Yng Ngwynedd, yn ôl pob tebyg, y dylid chwilio am gartref yr awdur anhysbys a gynullodd y cofnodion a'u rhoi mewn trefn; daw hynny'n amlwg o ystyried y lle blaenllaw a roddwyd i seintiau'r rhanbarth hwnnw.<sup>4</sup>

Trefnwyd *Bonedd y Saint*, yn enwedig rhan gyntaf y testun, â chryn ofal. Enwir y seintiau yn nhrefn yr achau y perthynant iddynt, a chyflwynir yr achau hynny fesul rhanbarth: achau a darddodd o'r Hen Ogledd yn gyntaf, yna rai o Lydaw ac o Gernyw, ac yn olaf achau a ddeilliodd o Gymru. Ar ddechrau'r cyfan daw llinach Cunedda Wledig, y llinach a feddai ar deyrnas Gwynedd, ac arweinir yr holl lu gan y sant pwysicaf oll, sef Dewi. Credid bod Dewi'n disgyn o Geredig ap Cunedda, ac felly mae disgynyddion eraill Ceredig yn ei ddilyn, gan lenwi cofnodion 1–7, fel y canlyn:

1. Dewi .m. Sant .m. Kedic m. Keredic .m. Cunedda Wledic, a Nonn uerch

Kenyr o Gaer Gawch yMynyw y mam.

2. Docuael .m. Ithael .m. Keredic .m. Cunedda Wledic.

3. Tyssul .m. Corun .m. Keredic .m. Cunedda Wledic.

4. Pedyr .m. Corun .m. Keredic .m. Cunedda Wledic.

5. Teilyaw .m. Ensyach .m. Hydwn Dwnn .m. Keredic .m. Cunedda Wledic.

---

<sup>4</sup> Rwyf yn paratoui golygiad newydd o'r testun a fydd yn trafod y dystiolaeth dros y dyddiad a'r lleoliad yn fanwl (Barry J. Lewis, *Bonedd y Saint: An Edition and Study of the Main Collection of Welsh Saints' Genealogies* (i ymddangos)). Yn y cyfamser, ceir golygiad yn Peter Bartrum (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff: University of Wales, 1966), tt. 51–67.

6. Auan Buellt .m. Kedic .m. *Keredic* .m. *Kuneda Wledic*, a Thecued \*verch

Tegit \*voel o Benllyn y mam.

7. Gwinlleu .m. Kyngar .m. Gartha\*vc .m. *Keredic* .m. *Kuneda Wledic*.<sup>5</sup>

Fel y gellid disgwyl, mae'r unigolion yr honnir iddynt ddisgyn o Ceredig yn dwyn perthynas â Cheredigion neu leoedd yn y cyffiniau. Yn Nhyddewi neu Fynyw, wrth gwrs, y mae prif eglwys Dewi (§1), ond mae eglwysi yng Ngheredigion ac iddynt gyswllt clòs ag ef, yn enwedig Llanddewibrefi. Coffeir Dogfael (§2) yn Llandudoch, yn agos iawn i ffin ddeheuol Ceredigion, a Tysul (§3) yn Llandysul, yn nyffryn Teifi. Nid yw Llandeilo Fawr, prif eglwys Teilo (§5), yn bell o Geredigion ychwaith. Coffeir Afan (§6) yn y tri lle a elwir Llanafan, un yng Ngheredigion a'r ddau arall ym Muellt, ar yr ochr draw i'r mynyddoedd o Geredigion. Tybir, yn olaf, mai yn Nantcwnlle y coffeir Gwynlleu (§7), sef plwyf ym mherfedd Ceredigion am y ffin â phlwyf Llanddewibrefi.<sup>6</sup>

Erys Pedr Sant, gwrthrych y pedwerydd cofnod, gŵr sy'n dwyn enw un o apostolion Crist. Yr unig eglwys a gysegrwyd ar yr enw Pedr yng Ngheredigion yw Llanbedr Pont Steffan, eto yn nyffryn Teifi. Ymddengys fod *Bonedd y Saint* yn awgrymu nad pennaeth yr apostolion a goffeir yno, ond sant lleol a oedd yn gefnder i Dewi Sant ac yn frawd i'w gymydog Tysul. Pa sail a allai fod i'r gred, ni wyddys. Dichon fod yma enghraifft o greu cymeriad brodorol allan o sant a fuasai

---

<sup>5</sup> Seiliwyd y golygiad ar Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Peniarth 16, ff. 53<sup>v</sup>, sef y llawysgrif hynaf (s. xiii<sup>2</sup>). Estynnwyd talfyriadau'r gwreiddiol mewn testun italig. Yn §1 mae Peniarth 16 yn rhoi *o Nonn yn lle a Nonn*, yn anghytuno â mwyafrif y copïau eraill; nid yw'r gwahaniaeth o bwys.

<sup>6</sup> Gadewir o'r neilltu yma y cwestiwn dyrys ai'r un sant â Gwynllyw o Gasnewydd yw Gwynlleu; o ystyried cymaint o bwyslais a roddir ar y ffaith fod Gwynllyw'n hanu o linach Glywysing, yn ei fuchedd ei hun fel ym muchedd ei fab Cadog, y tebyg yw nad oedd.

gynt yn rhyngwladol,<sup>7</sup> er na ellir profi nad oedd Pedr o Lanbedr yn wahanol i'r apostol o'r dechrau. Ar sail y cofnod hwn yn unig, byddai'n rhaid gadael y cwestiwn yn agored, ond y mae ar glawr ffynhonnell berthnasol arall, a thrwyddi down yn nes at Magna.

## 2. *Progenies Keredic*

Ymdebyga testun Lladin a elwir *Progenies Keredic* – ‘epil Ceredig’ – i gofnodion §§1–7 yn *Bonedd y Saint*. Cadwyd yr unig gopi yn Llundain, Y Llyfrgell Brydeinig, Cotton Vespasian A.xiv, ff. 11<sup>v</sup>, llawysgrif a ddyddir tua 1200 ac sy'n cynnwys casgliad helaeth o fucheddau seintiau Cymru yn Lladin. Digwydd *Progenies Keredic* ymysg deunydd amrywiol a gynullwyd o flaen y prif gasgliad. Mae'r testun mor fyr fel y gellir ei ddyfynnu yn ei grynswth:

Hec est progenies Keredic, regis de Keredigan.

1. Dewi, filius Sant, Sant, filius Keredic, filii Cuneda.
2. Auan Buelh, filius Kedic, filii eiusdem Keredic.
3. Pedyr Lanwaur, filius Corin, filii Keredic.
4. Kenider Gell, filius Kynon, filii Keredic.
5. Gunlyu, filius Guaur, filie Keredic.
6. Gugan Cledybrudh, filius Lauch, filii Lucho, filii Kedich, filii Keredic.
7. Ina, filia Keredic.
8. Karanouc, filius Keredic.
9. Dyuennen, filius Anhun, filii Keredic

---

<sup>7</sup> Sef barn Pádraig Ó Riain, ‘The saints of Cardiganshire’, yn J. L. Davies a D. P. Kirby (goln), *Cardiganshire County History, i: From the Earliest Times to the Coming of the Normans* (Cardiff: University of Wales Press, 1994), tt. 378–96 (td. 394 s.n. *Pedr*).

10. Keneu sanctus, filius Corun, filii Keredic.
11. Gugan, filius Samson, filii Keredic.
12. Dogmael sanctus, filius Ithaeil, filii Keredic.
13. Tydiuc sanctus, filius Corun, filii Keredic.<sup>8</sup>

Fe welir bod manylyn ychwanegol yma nas ceir yn *Bonedd y Saint*: yr epithet sy'n dilyn enw Pedr (§3), sef *Lanwaur*. Mae *l* yn sefyll am *ll* yn nodweddiadol o orgraff Hen Gymraeg, sy'n awgrymu'n gryf mai enw lle yn *Llan-* yw'r gair hwn. Ceir dau bosibilrwydd ar gyfer yr ail elfen, sef *wawr* a *fawr*. Nid yw *Llanwawr* yn gyfarwydd nac yn debygol,<sup>9</sup> ond mater arall yw *Llanfawr*, enw hawdd ei dderbyn o ran ei ffurfiant a'i ystyr. Nid yw'r orgraff yn rhwystr ychwaith: defnyddir *w* am sain *f* yn aml, er enghraifft, yn Llyfr Du Caerfyrddin. Gwelir enghraifft arall yn llaw'r un copïydd yn y testun blaenorol yn Vespasian A.xiv.<sup>10</sup> Derbynnir yma, gan hynny, fod *Lanwaur* yn cyfateb i *Llanfawr*.

Mae'r dystiolaeth newydd hon yn ailagor y cwestiwn a godwyd yn yr adran flaenorol, sef pa le a gysylltwyd â'r Pedr Sant a enwir yn *Bonedd y Saint* §4. Ymddengys bellach fod rhaid inni chwilio am le o'r enw *Llanfawr*. Gwaetha'r modd, nid oes un yng Ngheredigion nac yn agos iddi.

---

<sup>8</sup> Gol. yn A. W. Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Cardiff: University of Wales Press, 1944), tt. 319–20. Gellir gweld lluniau o'r llawysgrif wreiddiol ar safle'r Llyfrgell Brydeinig ([http://www.bl.uk/manuscripts/FullDisplay.aspx?ref=Cotton\\_MS\\_Vespasian\\_A\\_XIV](http://www.bl.uk/manuscripts/FullDisplay.aspx?ref=Cotton_MS_Vespasian_A_XIV)).

<sup>9</sup> Gw. Sabine Baring-Gould a John Fisher, *Lives of the British Saints*, 4 cyfrol (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1913), iv, tt. 88–9. Tynnant hwy sylw at ferched o'r enw Gwawr yn yr achau, megis Gwawr ferch Ceredig (= *Progenies Keredic* §5, lle enwir hi'n fam i Gwynllyw), a Gwawr ferch Brychan, mam Llywarch Hen. Nid oes awgrym fod y rheini'n cael eu hystyried yn santesau, o leiaf tan yn ddiweddar iawn, ac nid enwir eglwys Llanwawr yn unman.

<sup>10</sup> Sef *Kenwaur* am *Cynfawr* yn y testun *De situ Brecheniauc*, Vespasian A.xiv, ff. 11<sup>r</sup>; gol. yn Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae*, td. 315.



Mae dau le hysbys yn dwyn yr enw. Y naill yw Llanfor ym Mhenllyn, sir Feirionnydd: Deiniol Bangor yw nawddsant yr eglwys honno.<sup>11</sup> Y llall yw Llannor yn Llŷn. Dywedir fel arfer mai ar enw'r Groes Sanctaidd y cysegrwyd Llannor, er bod tystiolaeth (gryfach, efallai) o blaid Dwyfael Sant, a enwir yn nes ymlaen yn *Bonedd y Saint*.<sup>12</sup> Nid oes arwydd fod unrhyw sant o'r enw Pedr yn dwyn cysylltiad â'r naill na'r llall o'r eglwysi hynny. Rhaid ystyried, felly, ai hen enw ar Lanbedr Pont Steffan oedd *Llanfawr*, fel yr awgrymodd Egerton Phillimore.<sup>13</sup> Eto, nid oes tystiolaeth i ategu hynny. Yr enw llawn oedd *Llanbedr Tal Pont Steffan*, er y gwelir cryn amrywio ymhlith yr enghreifftiau cynharaf.<sup>14</sup> Normanaidd yw ail hanner yr enw, o leiaf, a gall, felly, fod enw arall ar y

---

<sup>11</sup> Ymddengys y sillafiad *Lanvaur* yng nghofnodion *Taxatio* 1254, gw. [www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx](http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx) d.g. *Llanfor* (gwelwyd 5 Medi 2017). Am y cysegriad, gw. A. W. Wade-Evans, '*Parochiale Wallicanum*', *Y Cymmrodor*, 22 (1910), 22–124 (88).

<sup>12</sup> Fel yn achos Llanfor, ceir y sillafiad *Lanvaur* yng nghofnodion *Taxatio* 1254, gw. [www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx](http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx) d.g. *Llannor* (gwelwyd 5 Medi 2017). Am y cysegriad ar enw'r Groes Sanctaidd, gw. Wade-Evans, '*Parochiale Wallicanum*', td. 67 n. 3, yn dyfynnu barn Browne Willis. Am Dwyfael: ef yw gwrthrych *Bonedd y Saint* §56, ond nis cysylltir â lle penodol yno. Eto, mewn copi cyfansawdd ysgolheigaidd o *Bonedd y Saint* yn LIGC 16962A, ff. 222<sup>f</sup>, dywed Thomas Wiliems, *dwyvel yn llan vawr yn lhey'n*, gwybodaeth na welais yn unman arall. Roedd Wiliems yn gweithio ar y llawysgrif hon o 1578 ymlaen i'r ganrif ddilynol.

<sup>13</sup> Yn Henry Owen (gol.), *The Description of Pembrokeshire by George Owen of Henllys, Lord of Kemes*, 4 cyfrol (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1892–1936), ii, td. 469.

<sup>14</sup> *Ecclesiam Sancti Petri de Mabonio* 1146 × 1151, *Pontem Stephani* c. 1191, *Landepeter* 1255, *Lanpeder* 1284, *Lampet' Pount Steune* 1301, *Lanpedyr Talpontestephyn* 1302 × 1303, *Lampeter Talpont* 1303 × 1304. Gw. Hywel Wyn Owen a Richard Morgan, *Dictionary of the Place-Names of*

Ile cyn y ddeuddegfed ganrif. Yr anhawster yw na cheir cyfeiriad at y lle o gwbl mor gynnar â hynny.

Un lle arall y mae angen ei ystyried yw Llangoedmor, ger Aberteifi ar odre de-orllewinol Ceredigion. Dyma enw sy'n cynnwys y ddwy elfen *llan* a *mawr*, ac sydd mewn ardal addas. Mae hyd yn oed wedi ei glymu wrth enw Pedr mewn un testun o *Bonedd y Saint*, a gopiwyd gan y bardd Simwnt Fychan yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>15</sup> Copi cyfansawdd cymhleth yw hwnnw. Ar ddiwedd y testun casglwyd ynghyd gofnodion strae nas ymgorfforwyd yn y prif destun, a'r rheini'n ymwneud â disgynyddion Ceredig gan mwyaf. Mae cofnod Pedr, gan gynnwys yr enw lle eithriadol, ymhlith y rhain. Dyma'r unig gopi sy'n cysylltu Pedr â Llangoedmor. Ymhle, felly, y cafodd Simwnt Fychan hyd iddo? Perthynai'r prif destun a gopiodd i gangen o *Bonedd y Saint* yr oedd Pedr (a Tysul) eisoes wedi diflannu ohoni.<sup>16</sup> Mae'r cofnodion wrth gwt y testun yn amlwg wedi dod o fersiwn arall, yn aelod o gangen wahanol; ceir yno seintiau ychwanegol, disgynyddion i Ceredig nas rhestrwyd yn uwchgynsail *Bonedd y Saint* ond a wthiwyd i mewn yn ystod datblygiad y gangen honno.<sup>17</sup> Casglwn, felly, mai copi yn perthyn i'r gangen honno a oedd o flaen Simwnt, er

---

*Wales* (Llandysul: Gomer, 2007), td. 209; [www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx](http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx) d.g. *Llanbedr Pont Steffan* (gwelwyd 5 Medi 2017).

<sup>15</sup> Caerdydd, Y Llyfrgell Ganolog, 4.265, ff. 28<sup>f</sup>: *Pedr yn llanngoed mawr ap korvn ap keredic ap kvnedda*.

<sup>16</sup> Goroesa Pedr o hyd yn llawysgrif gynharach y gangen hon, sef Caerdydd, Y Llyfrgell Ganolog, 1.363 (Dd) ond collwyd ef yn nes ymlaen, cf. Llansteffan 28 (E), Peniarth 182 (H) ac eraill (dilynir y sigla a fabwysiadwyd gan Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts*, tt. 52–3).

<sup>17</sup> Mae'r gangen hon yn cynnwys Peniarth 4 (C), Caerdydd 3.242 (D), Peniarth 27ii (F) ac eraill (eiddo Bartrum yw'r sigla, gw. uchod). Yn ei ychwanegiadau mae Simwnt yn cynnwys Tysul, a gollwyd o'i brif destun, a hefyd Cyngar (*Kynvaer* yw ei ffurf ef), Cynidr a Cynllo. Dengys y rhain fod testun o'r ail gangen ganddo: ychwanegwyd Cynidr i'r gangen honno yn unig, a datblygodd

nad yw ymhlith y copïau sydd ar glawr heddiw. Mae'n ddiogel casglu nad enwyd y lle yn *Bonedd y Saint* yn wreiddiol, ond i'r enw ddod i mewn yn ddiweddarach, mewn copi a berthynai i gangen neilltuol o'r stema.

Pwy bynnag a gydiodd yr enw *Llangoedmor* wrth enw Pedr, ai Simwnt Fychan, ai awdur ei gysail yntau, mae'n rhaid amau mai dyfalu yr oedd: gwelodd yr enw *Llanfawr* wrth ymyl *Pedr*, fel y mae yn *Progenies Keredic*, a chan na wyddai am le felly yn y cyffiniau, neidiodd i'r casgliad mai *Llangoedmor* a olygid. Arwynebol yn unig yw'r tebygrwydd rhyngddynt, gan fod ffurfiau'r enw *Llangoedmor* yn gyson yn cynnwys yr elfen *coed*, a Cynllo yw nawddsant yr eglwys, nid Pedr.<sup>18</sup> Eto, os cywir y ddamcaniaeth hon, fe ddilyn fod copi o *Bonedd y Saint* ac ynddo'r enw *Llanfawr* yn cylchredeg gynt. Efallai fod ryw fersiwn o *Progenies Keredic* wedi dylanwadu ar y copi penodol hwnnw. Yn sicr, nid enwyd *Llanfawr* yn *Bonedd y Saint* nes i rywun wthio'r enw i mewn yn lled ddiweddar.

Erys yn amhosibl olrhain ffynhonnell yr wybodaeth ei hun. Mae tarddiad a hanes *Progenies Keredic* yn ddirgelwch gan na cheir ond un copi ohono. Mae'n perthyn rywsut i ddechrau *Bonedd y Saint*, fel y dengys y gorgyffwrdd helaeth rhyngddynt, ond aneglur yw'r union berthynas. Ach deuluol yw *Progenies Keredic*, ac felly mae'n cynnwys disgynyddion secwlar Ceredig yn ogystal â gwŷr a gwragedd a ystyrir yn seintiau. Hyd yn oed o anwybyddu'r cymeriadau secwlar, erys gwahaniaethau sylweddol y mae'n anodd cyfrif amdanynt, yn enwedig presenoldeb nifer o seintiau nas enwir yn *Bonedd y Saint*. Mae hynny'n rhwystr rhag credu bod awdur gwreiddiol *Bonedd y Saint* wedi tynnu ar *Progenies Keredic*. Posibilrwydd cryf arall, felly, yw fod *Progenies Keredic* yn glytwaith, a bod rhyw fersiwn o *Bonedd y Saint* wedi cyfrannu ato. Beth bynnag yw'r ateb cywir,

---

cofnod Cyngar drwy ddyblygiad damweiniol, eto yn yr ail gangen yn unig. Ni cheir Cynllo ond yn F.

<sup>18</sup> [www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx](http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx) d.g. *Llangoedmor* (gwelwyd 5 Medi 2017); Wade-Evans, '*Parochiale Wallicanum*', td. 40.

nid oes yma unrhyw oleuni ar Lanfawr.

Mae'r sefyllfa bellach yn dywyllach na chynt. Ni wyddom o ble y daeth yr enw lle *Llanfawr yn Progenies Keredic*; ni allwn gadarnhau mai hen enw ar Lanbedr ydoedd; nid ydym yn sicr pa sail a oedd gan Simwnt Fychan dros gyfeirio at Langoedmor. Mae angen rhagor o dystiolaeth.

### 3. *Vita S. Briocii* – Buchedd Briog

Troir bellach at fuchedd Ladin a ysgrifennwyd yng nghanol yr unfed ganrif ar ddeg er anrhydedd Briafael neu Briog, nawddsant cadeirlan St-Brieuc yng ngogledd Llydaw.<sup>19</sup> Yn ôl y fuchedd hon,

---

<sup>19</sup> Am y dyddiad, gw. Joseph-Claude Poulin, *L'hagiographie bretonne du haut Moyen Âge: Répertoire raisonné* (Paris: Deutsches Historisches Institut, 2009), td. 77. Golygwyd y fuchedd yn F. B. Plaine (gol.), '*Vita Sancti Briocii episcopi et confessoris ab anonymo suppari conscripta*', *Analecta Bollandiana*, 2 (1883), 161–90. *Briafael* yw enw llawn y sant, a welir o hyd yn yr enw lle *St Briavels* yn swydd Gaerloyw. Tardda o *Brigomaglos*; trafodir y llafariad *-a-* yng nghanol y gair, ac eraill tebyg iddo, yn Kenneth Jackson, *Language and History in Early Britain: A Chronological Survey of the Brittonic Languages 1st to 12th c. AD* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 1953), tt. 647–50; cf. hefyd y ffurf *Briomaglus* a ddefnyddir unwaith ym muchedd y sant (§2, a ddyfynnir isod). Ffurf anwes, wedyn, yw *Briog*, yn cynnwys elfen gyntaf yr enw llawn a therfyniad a welir mewn llu o enwau anwes eraill (cymharer *Cadfael* a *Cadog*, dau enw ar nawddsant Llancarfan, Morgannwg). Gw. K. H. Jackson, 'Brigomaglos and St. Briog', *Archaeologia Aeliana*, 5th Series, 10 (1982), 61–5; Paul Russell, 'Patterns of hypocorism in early Irish hagiography', yn John Carey et al. (goln), *Studies in Irish Hagiography: Saints and Scholars* (Dublin: Four Courts, 2001), tt. 237–49. *Brioccus*, sef Lladineiddiad o'r enw anwes, a ddefnyddir amlaf yn y fuchedd. Gw. yn gyffredinol J. Loth, 'Les noms des saints bretons', *Revue celtique*, 29 (1908), 222–48 (237).

brodor o Geredigion oedd Briog:

Sanctus Briomaglus, Coriticianae regionis indigena, parentibus secundum seculi dignitatem nobilibus ortus est. Pater ejus Cerpus nomine, mater uero Eldruda vocata est. Qui licet gentilitatis adhuc errore detinerentur verique Dei cultum penitus ignorarent, humanitatis tamen operibus dediti ab omnibus regionis suae incolis non minimum diligebantur.<sup>20</sup>

‘Ganwyd Briafael Sant, brodor o deyrnas Ceredigion, i rieni a oedd yn fonheddig yn ôl safon y byd hwn. Enw ei dad oedd Cerpus, tra gelwid ei fam yn Eldruda. Roedd y rhain, er eu bod o hyd yn gaeth yn llyffetheiriau paganiaeth gyfeiliornus, ac na wyddent ddim am wasanaeth y gwir Dduw, eto yn ymroddedig i weithredoedd cardod, ac fe’u cerid yn fawr gan holl drigolion eu teyrnas.’

Hyfforddir Briog fel Cristion ar y Cyfandir, ac oddi yno mae’n dychwelyd i Brydain ac i Geredigion, gan lwyddo yn y pen draw i droi ei rieni i’r ffydd, ac wedyn bawb a oedd yn trigo yn eu teyrnas. Yna mae Briog yn hau eglwysi ledled Ceredigion, ac yn ben ar y cyfan mae’n codi prif eglwys a elwir *Landa Magna*:

Ad Christianitatis igitur cultum omnibus adductis comprovincialibus, vir sanctus per totam terram ecclesias construi locis imperat opportunis. Ipse vero locum quemdam qui Landa Magna vocatur, per seipsum specialiter, magnis licet

---

<sup>20</sup> Paine, ‘*Vita S. Briocii*’, td. 163 (§2).

expensis mira tamen industria, brevi aedificavit.<sup>21</sup>

‘Wedi dwyn perswâd ar ei holl gydwladwyr i gofleidio Cristnogaeth, gorchmynnodd y gŵr sanctaidd iddynt adeiladu eglwysi mewn mannau addas ar draws yr holl wlad. Ef ei hun, drwy ei ymdrechion personol, a adeiladodd eglwys a elwir *Landa Magna*. Gwariodd arian mawr arni a gweithiodd yn rhyfeddol o ddiwyd arni, gan ei chwblhau mewn dim o dro.’

Gwisg Ladin sydd ar yr enw yn y testun Lladin hwn (*magnus* = ‘mawr’), ond serch hynny, dyma ategu’n gryf y dyb fod eglwys o’r enw *Llanfawr* rywle yng Ngheredigion, fel y casglwyd eisoes wrth ymdrin â *Progenies Keredic*.<sup>22</sup> Ysywaeth, ni ddywed y bucheddwr ym mhle yn union yr oedd Llanfawr, ac yn wir niwlog braidd yw’r modd y mae’n ymdrin â thiriogaeth Prydain o’i gymharu â’i fanylder cyfewin wrth sôn am ardaloedd St-Brieuc a Tréguier yn Llydaw. Nid yw’n debygol ei fod wedi ymweld â Cheredigion erioed. Drwy ryw ddogfen neu oddi ar dafod leferydd y cafodd wybod am *Landa Magna*. Er gwaethaf hynny, mae’n ddiogel casglu o’r fuchedd mai yng Ngheredigion yn benodol yr oedd *Landa Magna*. Enwir y rhanbarth ar ddechrau’r fuchedd a hefyd ddwywaith ym mhennod 41, pan ddaw Briog yn ôl unwaith eto i ryddhau’r wlad o bla.<sup>23</sup> Defnyddir y geiriau Lladin

---

<sup>21</sup> Ibid. td. 174 (§29).

<sup>22</sup> Mynega Jackson (‘Brigomaglus and St. Briog’, 64) amheuo am hyn, gan awgrymu bod y disgrifiad mor anfanwl fel ei fod yn gadael y lleoliad yn llwyr benagored. Nid felly y mae, fodd bynnag. Sefydlir yr eglwys hyn, a *Landa Magna* yn eu plith, o fewn ffiniau teyrnas enedigol y sant. Ni all fod *Landa Magna* yn Llydaw, fel yr awgryma Jackson. Yn eglwys *Landa Magna* y mae’r sant pan ddaw angel ato a gorchymyn iddo ddychwelyd dros y môr i Lydaw (*usque Latium [sic] trans mare*, Plaine, ‘*Vita S. Brioci*’, 177 (§35)).

<sup>23</sup> Ibid. tt. 179–80 (§41) *Interea nuntius quidam de Coriticihana veniens regione ... omnis, inquiring,*

*regio, patria, provincia* a *terra* yn ddiwahaniaeth i ddisgrifio mamwlad Briog, ac nid oes unrhyw awgrym fod y geiriau hynny'n cyfeirio at ardal fwy, megis Cymru neu Brydain gyfan.<sup>24</sup> Roedd gan y bucheddwr ryw wybodaeth, o leiaf, am leoliad Ceredigion. Gwyddai ei fod dros y môr, gan fod Briog yn hwylio yno o'r Cyfandir, ac ar y daith yn ôl mae'r sant yn galw mewn gwlad arall, y mae'n rhaid mai Cernyw ydyw, cyn cyrraedd Llydaw; mae dylanwad gyrfa Samson fel y'i portreëdir yn y *Vita S. Samsonis*, a ddylanwadodd yn drwm ar fucheddwr Llydaw, i'w weld yn eglur yma.<sup>25</sup>

Mae'r cysylltiad â Briog Sant yn ailagor cwestiwn lleoliad Llanfawr. Ni wyddys am unrhyw gyswllt rhwng y sant hwnnw a Llanbedr Pont Steffan neu Langoedmor. Fodd bynnag, rhwng y ddau le hynny yn nyffryn Teifi saif eglwys a elwir Llandyfrïog, enw sy'n cynnwys ffurf anwes arall yn

---

*Coriticiana regio maxima vastatur clade* ('Yn y cyfamser daeth rhyw negesydd o ranbarth Ceredigion gan ddweud, 'Mae holl ranbarth Ceredigion yn dioddef trychineb anferth ...').

<sup>24</sup> Cf. *ibid.* td. 163 (§1) *Coriticianae regionis ... omnibus regionis suae incolis*; td. 170 (§20) *ad patriam tuam ... ad provinciam tuam*; td. 171 (§23) *ad patriam divertens*; td. 174 (§28) *regionis illius incolae*; td. 180 (§42) *pervenit ad patriam, visitatque parentes ... terrae illius habitatores*.

<sup>25</sup> *Ibid.* tt. 170–1 (§§21–2) am y fordaith i Brydain; td. 178 (§37) am hwylio'n ôl eto; tt. 178–9 (§§38–9) am yr ysbaid yng Nghernyw. Dywed y golygydd mai ar ryw ynys anhysbys y glaniodd Briog, ond ni cheir y gair 'ynys' yn y testun o gwbl; *terrae desideratae littore* a ddywedir yno, 'arfodir y tir yr oedd yn dymuno ei gyrraedd'. Wedi treulio peth amser yno, mae'r sant yn croesi *Mare Britannicum* ac yn glanio yn Llydaw. Anodd meddwl nad de-orllewin Prydain oedd y tir hwn rhwng Ceredigion a Llydaw. Am y cyfochreb â'r *Vita S. Samsonis*, gw. P. Flobert (ed), *La Vie ancienne de saint Samson de Dol: texte édité, traduit et commenté* (Paris, 1997). Â Samson o dde Cymru i Llydaw, eto fel Briog yn dilyn cyfarwyddyd angel, a threulia beth amser yng Nghernyw ar y ffordd, fel y disgrifir yn §§45–52 o'i fuchedd. Am ddylanwad pellach y *Vita S. Samsonis* ar y testun hwn, gw. hefyd n. 28 isod.

perthyn i'r un sant, sef *Tyfriog*.<sup>26</sup> A oes modd uniaethu Llandyfriog â'r Llanfawr yr ydym yn chwilio amdani? Un peth sy'n codi amheuon yw'r gwahaniaeth trawiadol yn eu statws. Cofnodwyd gwerth eglwys Llandyfriog yn arolwg 1291–2 o eglwysi Lloegr a Chymru. Ei hincwm oedd ychydig dros £4 y flwyddyn, un o'r symiau isaf yn neoniaeth Is Aeron; cymharer Llandysul gerllaw a hawliai ryw £20 neu Landdewibrefi a hawliai £16.<sup>27</sup> Sefydliad o faint dra gwahanol oedd *Landa Magna* yn ôl *Vita Briocii*, un a oedd yn deilwng o'i enw urddasol. Ceid yno gymuned o fynachod, ysgol, ysgrifdy, bedydd-dy a gwesty, ac enwir sawl swyddog, megis ystiward, pobydd a selerwr, heblaw gweithwyr i ymgymryd â llafur megis torri coed. Mae'r gofod a neilltuwyd i Lanfawr yn y fuchedd – chwe phennod gyflawn, sef o §29 hyd §35 – yn dyst i'w phwysigrwydd fel prif sefydliad y sant yn ei famwlad. Un ffordd allan o'r benbleth fyddai bwrw amheuaeth ar eirwiredd yr hanes. O edrych yn fanwl ar y rhan o'r fuchedd sy'n adrodd hanes *Landa Magna*, ceir bod y disgrifiadau'n eithaf cyffredinol a'r hanesion eu hunain yn rhai cyfarwydd sy'n britho bucheddau eraill.<sup>28</sup> A diystyru'r hanesion eu hunain, nid erys ond cnewyllyn go gyfyngedig o wybodaeth benodol am Lanfawr: (i) yr enw *Landa Magna* ei hun; (ii) y ffaith ei bod yng

---

<sup>26</sup> Ar y rhagddodiad anwes *ty-* yn enwau'r saint, gw. Russell, 'Patterns of hypocorism', tt. 242–9; R. Thurneysen, 'Zum Namentypus abret. *To-woedoc* air. *Do-Dimoc*', *Zeitschrift für celtische Philologie*, 19 (1933), 354–67.

<sup>27</sup> Gwerth llawn Llandyfriog oedd £4. 6s. 8d. Mae cronfa electronig o ffigyrau'r arolwg ar lein, a grewyd gan Brifysgol Sheffield. Am ddeoniaeth Is Aeron, gw. <https://www.hrionline.ac.uk/taxatio/search?form=deanery&deanery=DA.CG.SA> (gwelwyd 18 Hydref 2017).

<sup>28</sup> Seiliwyd darnau helaeth o'r fuchedd ar y *Vita S. Samsonis* gynharaf, sef testun o Lydaw sy'n perthyn i ail hanner y seithfed ganrif yn ôl pob tebyg, a *Vita Martini*, gwaith Sulpicius Severus a luniwyd yn y flwyddyn 397. Gw. Poulin, *L'hagiographie bretonne*, td. 84 am dabl yn dangos y dylanwadau hyn.



Ngheredigion; a (iii) y cysylltiad â Briog. Mae'n llwyr bosibl, felly, mai ffrwyth y dychymyg oedd ysblander *Landa Magna*. Ar y llaw arall, mae'r enw ei hun yn awgrymu nad lle cwbl ddi-nod mohoni. Gan hynny, pe derbynnid yr uniaethiad â Llandyfrïog, byddai'n rhaid cymryd bod yr eglwys honno mewn gwirionedd yn amlycach yn yr Oesoedd Canol cynnar nag y byddai'n nes ymlaen.

Mae'r tywyllwch o'n cwmpas fel petai'n mynd yn fwy trwchus o hyd, oherwydd bod y ffynonellau y mae'n rhaid inni ddibynnu arnynt mor anfoddhaol. Gwyddom bellach am dri lle – Llanbedr Pont Steffan, Llangoedmor a Llandyfrïog – y gellid dadlau dros eu huniaethu â Llanfawr, heb grybwyll y posibilrwydd cryf mai lle cwbl wahanol ydoedd, un sydd wedi mynd i ebargofiant erbyn hyn, ond a oedd yn agos at y rhain, rywle yn nyffryn Teifi.

#### 4. *Canu Llywarch Hen*

Enwir nid llai na thair Llanfawr mewn cyfres o englynion yn perthyn i gylch Llywarch Hen. Nis cadwyd ond mewn tair llawysgrif ddiweddar, dwy ohonynt wedi eu copïo o'r un gyntaf, sef Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 4973B, ff. 128<sup>r-v</sup>, yn llaw John Davies o Fallwyd. Sgwrs rhwng y marchog Llallogan a Llywarch Hen yw pwnc y gyfres. Ymddengys fod Llywarch ar grwydr, yn unig ac mewn trybini, ac mae'r marchog yn addo y caiff loches a chysur yn Llanfawr. Ni wŷr Llywarch pa un o ddau le gwahanol yn dwyn yr enw hwnnw a olygir, ond yna, pan rydd y marchog gyfarwyddiadau eglur, daw'n glir mai trydydd un, sef Llanfor ym Mhenllyn, sydd yn ei feddwl. Trafodwyd Llanfor uchod, ac ni raid mynd yn ôl ati. Mae'r ddau a ddisgrifir gan Llywarch Hen yn fwy anodd eu lleoli:

Yssydd Lanfawr dra gweilgi,

Y gwna mor molud wrthi.

Llallogan, ni wnn ai hi.

Yssydd Lanfawr tra Bannawg,

Ydd aa Clwyd yng Nghlawedawg.

Ac ni wn ai hi, Lallawg.<sup>29</sup>

Ynglyn â'r lle cyntaf: dywed Llywarch ei fod dros y môr, a bod y môr yn ei ganmol. Topos yw dehongli sŵn y tonnau yn taro'r tir fel canmoliaeth a genir i le ar yr arfordir, a dyna sicrhau bod y Llanfawr hon ar lan y môr.<sup>30</sup> Gellid meddwl am Lanmeur rhwng Morlaix a Lannion yng ngogledd-orllewin Llydaw, ond mae'r lle hwnnw ychydig filltiroedd y tu mewn i'r tir. Byddai lleoliad yng Nghymru'n bosibl, a derbyn bod Llywarch yn sôn am Fôr Iwerddon, ond nid yw Llanfor na Llannor ar yr arfordir. Mae'r Llanfawr yn yr ail englyn yn ddirgelwch hefyd. Rhes o fryniau yng nghanolbarth yr Alban yw Mynydd Bannog, ar y ffin draddodiadol rhwng Prydyn (gwlad y Pictiaid) a theyrnasoedd y Brythoniaid.<sup>31</sup> Ni wyddys am le o'r enw Llanfawr nac am afonydd yn dwyn yr

---

<sup>29</sup> Jenny Rowland (gol.), *Early Welsh Saga Poetry: A Study and Edition of the Englynion* (Cambridge: D. S. Brewer, 1990), td. 415; cf. Ifor Williams (gol.), *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935), td. 22 (§V.6–7). Drwy lithriad ceir *llafnfawr* yn lle *llanfawr* yn yr ail achos yn y llawysgrif, a *laallawg* am *lallawg*. Rwyf wedi sillafu *Lallawg* â phriflythyren gan dderbyn mai enw priod ydyw ac amrywiad ar *Llallogan*.

<sup>30</sup> Am y topos, gw. Barry J. Lewis, 'Golwg y Beirdd Canoloesol ar Harddwch Natur', *Dwned*, 11 (2005), 35–63. Fe'i gwelir loywaf yn y gerdd gynnar *Edmyg Dinbych* y ceir y golygiad diweddaraf ohoni yn Paul Russell, 'Ad\*vuyn Gaer Yssyd: An Early Welsh Poem Revisited', *Celtica*, 29 (2017), 6–37.

<sup>31</sup> Gw. Thomas Charles-Edwards, *Wales and the Britons 350–1064* (Oxford: Oxford University Press, 2013), tt. 6–7.

enwau Clwyd neu Glywedog ym Mhrydyn; o ganlyniad, awgrymwyd bod yr afonydd, o leiaf, yn rhai ffuglennol,<sup>32</sup> peth a fyddai'n bwrw amheuaeth ar fodolaeth yr eglwys hefyd. Ar y llaw arall, mae afon o'r enw Clywedog yn llifo i mewn i afon Clwyd ychydig i'r de o dref Dinbych, yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Os dyna'r cydlifiad y sonnir amdano yn yr englyn, byddai rhaid derbyn bod Llywarch yn cyfarfod â Llallogan ar ochr ogleddol Mynydd Bannog, nid i'r de ohono. Nid yw hynny y tu hwnt i grediniaeth; mae'n ymddangos fod y ddau gymeriad yn cyfarfod rywle yn yr Hen Ogledd, a bod Llywarch wedi bod yn crwydro ar ddisberod am beth amser.<sup>33</sup> Gwaetha'r modd, nid oes lle hysbys o'r enw Llanfawr yn agos i Ddinbych. Rydym, felly, yn y tywyllwch o hyd. Yn sicr ni ellir uniaethu'r naill na'r llall o'r lleoedd a enwir yn yr englyn â'r Llanfawr yng Ngheredigion nad oedd, hyd y gwyddys, ar lan y môr nac yn agos i unrhyw afon heblaw afon Teifi.

#### 5. *Vita S. David gan Rhygyfarch*

Hyd yma, rydym wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod eglwys a elwid Llanfawr yng ngodre

---

<sup>32</sup> 'Chosen at random from known river-names and paired for assonance' yw awgrym Rowland, *Early Welsh Saga Poetry*, td. 540 (n. 8b). Barna hefyd (ibid. tt. 539–40, n. 8a) fod y Llanfawr hon ar ochr ogleddol Mynydd Bannog: '*Tra Bannawg*, although uncertain in location, is obviously used for farthest Pictland, so it is unlikely that these rivers are in Wales.'

<sup>33</sup> Ymddengys fod Llywarch ar grwydr yn sgil marwolaeth Urien a'i feibion, ac enwir cymeriadau gogleddol eraill, Brân a Dunod, y cynghorir Llywarch i beidio â cheisio lloches ganddynt. Roedd Llallogan yntau yn perthyn i draddodiadau'r Hen Ogledd, gw. Peter Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth: The National Library of Wales, 1993), tt. 403–3. Gan fod Llywarch yn sôn am fwyta mes, mae'n amlwg ei fod ar goll yn yr anialwch ac yn brin o fwyd. Gallai Llywarch a Llallogan fod yng ngwlad y Pictiaid, a rhesymol fyddai i Llywarch feddwl am Gymru fel gwlad sy'n gorwedd y tu draw i Fynydd Bannog.

deheuol Ceredigion, nad oes ôl ohoni bellach. Cawn fwy i gnoi cil arno ym muchedd Ladin Dewi Sant. Rhygyfarch o Lanbadarn Fawr a gyfansoddodd hon ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg.<sup>34</sup> Uchafbwynt y fuchedd yw hanes y synod enwog yn Llanddewibrefi, pan bregethodd Dewi yn erbyn heresi'r Pelagiaid a phan gododd y ddaear dan ei draed fel y gallai'r dorf ei glywed. Yn sgil ei bregeth, dyrchafwyd Dewi'n archesgob dros Brydain gyfan. Yma, fodd bynnag, mae mwy o ddiddordeb yn perthyn i ddigwyddiad sy'n dod i ran Dewi ar ei ffordd i'r synod. Dyma'r bennod berthnasol:

Proficiscentes autem ad proximum synodi locum perueniunt, et ecce iuxta funestum audierunt luctum. Sanctus autem ad socios ait, 'Ego ubi ingens habetur ululatus pergam.' Responderunt autem socii et dixerunt, 'Nos congregationem adibimus, ne nostra tarditas expectantes molestat.' Vir uero Dei egrediens, perrexit ad locum, ubi luctus aderat, iuxta amnem Theibi. Et ecce orbata mater corporis extincti pueri seruabat, qui Magnus uocabatur. Beatus uero Daud, consolans matrem, monitis subleuauit eam salutaribus. At illa, audita eius fama, ante pedes eius corruens, importunis deprecatur clamoribus, ut sui misereretur. Compassus autem uir Dei infirmitati humanę, ad corpus extincti accedens, faciem lacrimis rigauit, atque super defuncti funus corruit, orauitque ad Dominum et dixit, 'Domine, Deus meus, qui in hunc mundum pro nobis peccatoribus de sinu Patris descendisti, ut nos redimeres de faucibus antiqui hostis, miserere istius uiduę, et da uitam unico filio suo, atque inspira in eo spiraculum uite, ut magnificetur nomen tuum in uniuersa terra.' Tandem

---

<sup>34</sup> Bu farw Rhygyfarch yn 1099 yn ôl *Brut y Tywysogion*, gw. Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes: Red Book of Hergest Version* (Cardiff: University of Wales Press, 1955), tt. 38–9.

uero calefactis membris, redeunte anima, corpus intremuit, tenensque pueri manum, uiuum et sanum matri restituit. Mater autem tristes fletus in letas uertit lacrimas, dicens, ‘Michi mortuus filius erat, tibi uero et Deo amodo uiuat.’ Accipiens autem sanctus uir puerum, euangelii textum, quod semper in pectore gerebat, eius humeris imposuit, atque secum ad synodum ire fecit, qui postea, uita comite, multis annis sanctam duxit conuersionem. Et omnes, qui uiderunt illud miraculum, laudauerunt Dominum et Dauid agium.<sup>35</sup>

‘Ar eu ffordd yno, felly, daethant hyd le a oedd yn agos iawn i’r synod, ac yna clywsant sŵn galarnadu pruddglwyfus. Dywedodd y sant wrth ei gymdeithion, ‘Af i’r man y mae’r diasbedain ofnadwy i’w glywed’. Atebodd ei gymdeithion, ‘Awn ninnau ymlaen i’r cynulliad, fel na tharfwn ar y sawl sy’n disgwyl amdanom drwy gyrraedd yn hwyr.’ Troes gŵr Duw o’r neilltu a chyrraedd y lle y clywid y galaru, yn ymyl afon Teifi. Ac wele yno weddw a gollasai ei mab, ac a oedd yn cadw gwylfa uwchben celain y bachgen marw, a elwid Magnus. Cysurodd Dewi Sant y fam, gan roi iddi eiriau o gyngor adeiladol. Ond clywsai hithau am fri’r sant, ac felly syrthiodd wrth ei draed gan ymbil arno’n groch ac yn daer i drugarhau wrthi. Cydymdeimlodd gŵr Duw â’r gwendid dynol hwnnw. Nesaodd at y corff marw a’i wyneb yn llawn dagrau. Syrthiodd drosto, gan weddio ar Dduw â’r geiriau hyn: ‘F’ Arglwydd, fy Nuw, yr hwn a ddisgynnodd o arffed y Tad i’r byd hwn drosom ninnau bechaduriaid er mwyn ein hachub o enau’r Hen Elyn, trugarha wrth y weddw hon, ac adfer fywyd ei

---

<sup>35</sup> Richard Sharpe a John Reuben Davies (goln), ‘Rhygyfarch’s *Life of St David*’, yn J. Wyn Evans and Jonathan M. Wooding (goln), *St David of Wales: Cult, Church and Nation* (Woodbridge: Boydell, 2007), tt. 107–55 (td. 144, §51).

hunig fab, a chwyth anadl bywyd i mewn iddo unwaith eto, fel y dyrchefir dy enw ar draws y byd i gyd.’ Wedi hir ysbaid, ailgyneuwyd y gwres yn yr aelodau a daeth enaid y bachgen yn ôl. Crynodd y corff, a gafaelodd y sant yn llaw’r bachgen a’i roi yn ôl, yn fyw ac yn iach, i’w fam. Newidiwyd galar dwfn y fam yn ddagrau o lawenydd, a dywedodd, ‘Bu farw fy mab, ond o hyn ymlaen boed iddo fyw er dy fwyn di ac er mwyn Duw.’ Cymerodd y gŵr sanctaidd y bachgen, gan osod ar ei ysgwyddau gyfrol o’r efengyl yr arferai ei dwyn bob amser yn ei arffed, a chan ei arwain gydag ef i’r synod. Yn sgil hynny, dygodd y gŵr hwnnw fywyd sanctaidd am lawer o flynyddoedd, tra bu byw. A chanmolodd pawb a welsai’r wyrth honno yr Arglwydd a Dewi Sant.’

Gan fod yr hanesyn hwn yn digwydd mewn testun a gysegrwyd i Dewi, mae’n naturiol fod y pwyslais ar sancteiddrwydd y sant ei hun. Gwrthrych yn unig yw Magnus, y dyn a adfywiwyd. Ac eto mae yma awgrymiadau fod iddo rywfaint o arwyddocâd ynddo’i hun. Paham, yn gyntaf, y’i henwir ef? Gadewir ei fam yn ddiennw ac nid yw’r enw yn chwarae rhan yn y stori.<sup>36</sup> Mae’r ffaith fod enw ar gof o gwbl yn awgrymu bod rhyw leoliad neu sefydliad yn arddel perthynas â’r gŵr hwn ac yn gwarchod ei enw. Cryfheir y dybiaeth honno gan y modd y mae’r awdur yn manylu ar leoliad y wyrth: yng nghyffiniau Llanddewibrefi (*ad proximum synodi locum*) ac ar lan afon Teifi (*iuxta amnem Theibi*). Unwaith eto, nid yw’r manylion hyn, ac yn enwedig yr ail, yn cyfrannu mewn modd amlwg at ergyd y stori. Yn olaf, ystyrier gyrfa Magnus yn sgil ei adferiad: mae’n ymddwyn fel gwas neu fel dilynwr i Dewi, yn cludo llyfr efengyl y sant ar ei ysgwyddau, ac yno mae’n dwyn bywyd sanctaidd hyd ddiwedd ei oes. Hynny yw, yr oedd cred fod Magnus yn ddisgybl i Dewi ac

---

<sup>36</sup> Hepgorwyd yr enw o’r cyfieithiad Cymraeg Canol, gw. D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi*, ail argraffiad (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1965), td. 16. Felly y gwnaeth y cyfieithydd yn achos llawer o ddeunydd arall nad ystyriai’n bwysig.

yn sant ar ei liwt ei hun. Mae gennym yma, felly, gyfuniad o dri pheth – enw personol, enw lle a chydabod sancteiddrwydd – a allai awgrymu bod safle cwlt yn bodoli a gysylltid ag enw Magnus, hynny yw, fod y lle hwn *iuxta amnem Theibi* yn meddu ar eglwys neu gapel a ddygai enw'r gŵr a adferwyd ac a ddynodai'r man lle cafwyd y wyrth.

Efallai fod y casgliad hwn yn ymddangos braidd yn fentrus, gan na chrybwyllir eglwys o'r fath yn y fuchedd. Ond mae modd cyfrif am y diffyg sôn amdani. Fel y nodwyd eisoes, mae'r awdur yn pwysleisio rôl Dewi yn hytrach na Magnus, ac yn naturiol felly. Mae safle'r wyrth yn y fuchedd yn unol â hynny: gan mai codi dyn o'r meirw yw un o'r gwyrthiau pennaf, os nad y bennaf un y gellid ei chyflawni, mae'n ategu sancteiddrwydd aruchel Dewi yn union cyn uchafbwynt ei yrfa, sef synod Llanddewibrefi. Nid dyma'r lle i oedi a thrafod sefydliad a oedd yn perthyn i sant arall, hyd yn oed un o ddisgyblion Dewi. Bodlonwyd, felly, ar roi amlinelliad cwta o hanes Magnus, gan neilltuo'r sylw yn llwyr i gynnydd ysbrydol Dewi. Eto i gyd, o dynnu esgyrn sychion yr hanes o'u cyd-destun ym muchedd Dewi – fel yr awgrymaf yma – maent yn sydyn yn dechrau edrych fel rhywbeth amgen: math arall o stori, sy'n rhoi cyfrif am gysylltiad rhwng dwy eglwys. Mae perthynas Magnus â Dewi yn dilyn patrwm tra hysbys mewn hagiograffeg: sant gweddol ddi-nod, heb ei stori ei hun, yn cael ei gynysgaeddu â stori gefndirol drwy ddod yn wrthrych i wyrth gan sant enwocach. I fynegi ei ddiolchgarwch, mae'r unigolyn yn ymroi i fywyd sanctaidd, dan oruchwyliaeth y sant enwog. Golyga hynny yn ei dro fod eglwys y sant llai yn ddarostyngedig i eglwys y sant mawr: yn y bôn, felly, mae hanesion o'r fath yn cyfiawnhau perthynas gyfreithiol rhwng dau sefydliad.<sup>37</sup> Disgybl i Dewi oedd Magnus; diau, felly, fod claswyr y fam-eglwys rymus a

---

<sup>37</sup> Enghraifft dda yw Elli o Lanelli, a genhedlwyd drwy weddïau Cadog Sant ac a gysegrwyd, felly, i wasanaeth Duw er yn deirblwydd, a hynny dan ofal Cadog ei hun, gw. Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae*, tt. 56–7 (*Vita S. Cadoci*, §14). Enghraifft arall yw Gwenfrewy, a adfywiwyd gan ei hewythr Beuno; yn sgil hynny, talai ei heglwys deyrnged flynyddol i eglwys Beuno yng Nghlynnog Fawr, gw. *ibid.* tt. 292–5 (*Vita S. Wenefrede*, §§15–16). Morwyn arall a godwyd gan

dylanwadol yn Llanddewibrefi yn hawlio rhyw fath o awdurdod dros ei eglwys.

Er cydnabod bod hanes Magnus yn dwyn i gof y motîff hagiograffaidd cyffredin hwn, ni fyddai'n werth dyfalu yn ei gylch fel y gwnaethpwyd uchod oni bai am y dystiolaeth fod yn yr union ardal honno eglwys a elwid *Landa Magna*. Mae hynny'n ormod o gyd-ddigwyddiad, ac mae'n gwahodd y casgliad fod enw'r gŵr a godwyd o'r meirw yn deillio o'r enw lle, ac mai yn *Landa Magna*, felly, y digwyddodd y wyrth. Cyfyd hyn eto'r cwestiwn pa fath o eglwys oedd Llanfawr, a sut y gellir cysoni'r darlun o fam-eglwys fawreddog a geir yn *Vita Briocii* â'r statws mwy distadl a ymhlygir yma. Fel y nodwyd, gall fod awdur *Vita Briocii* wedi ei ysbrydoli gan fucheddau eraill, ac nad oedd ganddo fawr o wybodaeth annibynnol am Lanfawr ei hun. Ar y llaw arall, mae'r enw ei hun yn mynnu nad sefydliad di-nod mo Llanfawr, fel hefyd yn achos ei chymar ym Mhenllyn.<sup>38</sup> Ymddengys iddi golli ei phwysigrwydd, neu ganran dda ohono, a hynny ar adeg aneglur ac am resymau nas diogelwyd. Gan nad yw amser *Vita Briocii* yn bell oddi wrth gyfnod Rhygyfarch, gall fod y darlun yn y *Vita* eisoes yn un hynafol pan gyfansoddwyd hi.

Yn ddiau, byddai'r ddamcaniaeth fod cysylltiad rhwng y bachgen Magnus â *Landa Magna*

---

Feuno, ac a ymroddodd i wasanaeth Duw, oedd Tygiwg o Landygiwg, Gwent, gw. *ibid.* td. 20 (*Buchedd Beuno*, §19). Defnyddiwyd gwyrthiau eraill i egluro darostyngiad eglwys i eglwys arall hefyd. Er enghraifft, pan leddir y forwyn Maches, mae gweddïau Tathwy Sant yn sicrhau bod y llofruddion yn cyfaddef eu bai, er nad yw'r forwyn yn cael ei hadfer. Pwysleisir bod Llanfaches, yr eglwys a godir ar safle'r llofruddiaeth, yn ddarostyngedig i eglwys Tathwy, sef Caer-went, drwy i'r sant fynnu bod y forwyn yn cael ei chladdu yn y fam-eglwys, gw. *ibid.* tt. 282–3 (*Vita S. Tatheï*, §13).

<sup>38</sup> Am statws uchel Llanfor ym Mhenllyn, gw. Huw Pryce, 'The medieval church', yn J. Beverley Smith a Llinos Beverley Smith (goln), *History of Merioneth*, ii: *The Middle Ages* (Cardiff: Merioneth Historical and Record Society, 2011), tt. 254–96 (td. 265). Eglwys gyfrannol oedd Llanfor, ond roedd un arall debyg yn yr un cantref, sef Llandderfel.



yn gadarnach pe soniai'r ffynonellau am *Magna* yn lle *Magnus*, ac yn ddiddorol ddigon, fe ddefnyddir y ffurf *Magna* mewn ambell fan. Un o'r rhain yw testun o *Vita S. David*, ymhlith y copïau diweddarach. Ceir yno *Magna* yn lle *Magnus*, a hynny yn nannedd tystiolaeth trwch y llawysgrifau eraill a'r ffaith mai cymeriad gwrywaidd ydyw yn y fuchedd ei hun.<sup>39</sup> Rhaid cyfaddef, er hynny, y posibilrwydd mai gwall copïo ydoedd. Perthyn y copi perthnasol i fersiwn 'Nero-Digby' o'r fuchedd, sef addasiad a wnaed yn hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif ac y mae ei eiriad yn wahanol iawn i'r fersiwn hŷn.<sup>40</sup> Yn fersiwn 'Nero-Digby' o'r fuchedd, ailgyfansoddwyd y frawddeg berthnasol fel y canlyn: *extincti iuuenculi ... cui barbara imperitia magnum nomen dederat* 'gŵr ifanc iawn wedi marw ... yr oedd y barbariaid yn eu hanwybodaeth wedi ei gynysgaeddu â'r enw Magnus'. Golyga hynny fod y ffurf *magna*, yn y copi sy'n cynnig honno yn lle *magnum*, yn digwydd ar ôl yr enw benywaidd *imperitia*. Gall, felly, fod *magna* wedi ei hystumio i gyd-fynd ag *imperitia*. Os felly, byddai'n bosibl i hynny ddigwydd yn Lloegr, lle copïwyd y llawysgrif, a byddai angen diystyru'r tebygrwydd fod gan y copïydd ryw wybodaeth amgen am y cymeriad.<sup>41</sup>

---

<sup>39</sup> Gw. J. W. James (gol.), *Rhygyfarch's Life of St. David: The Basic Mid Twelfth-Century Latin Text with Introduction, Critical Apparatus and Translation* (Cardiff: University of Wales Press, 1967), td. 23 n. 5, lle rhoddir darlenniadau amrywiol. Llawysgrif D3, sef Rhydychen, Llyfrgell Bodley 285, sy'n rhoi'r darlenniad *Magna*, ac fe'i dilynir gan ei disgynyddion D4, D6 a D7 (am y berthynas, cf. y stema, *ibid.*, o flaen td. 1). Perthyn Bodley 285 i'r drydedd ganrif ar ddeg ac fe'i hysgrifennwyd yn Ramsey, swydd Huntingdon.

<sup>40</sup> Gw. Richard Sharpe, 'Which text is Rhygyfarch's *Life of David*?', yn J. Wyn Evans and Jonathan M. Wooding (goln), *St David of Wales: Cult, Church and Nation* (Woodbridge: Boydell, 2007), tt. 90–105 am y gwahanol fersiynau.

<sup>41</sup> Eto, mae ambell ddarlenniad diddorol yn D3. Deil James mai copi uniongyrchol o D1 ydoedd, llawysgrif y ceir *magnum* ynddi, ond go brin fod modd derbyn hynny; nodâ James ei hun fod D3 yn

Mae tystiolaeth gadarnhach ar gael mewn dau ddarn o farddoniaeth. Rhywbryd yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif canodd Gwynfardd Brycheiniog awdl fawreddog i Dewi Sant ar gyfer clerigwyr Llanddewibrefi, ac yno crybwyllir y wyrth:

A Dewi a'e goruc, g\*vr bieifyt,

Magna uab yn uyw a'e uar\*v deudyt.<sup>42</sup>

Gwaith comisiwn oedd y gerdd hon, sy'n awgrymu y gallai Gwynfardd fod wedi tynnu ar ffynonellau dogfennol a gedwid yn llyfrgell Llanddewibrefi, megis siarteri. Tair canrif yn ddiweddarach, canodd bardd arall fel y canlyn:

Da y gwnâi Fagna â'i fagl

O farw yn fyw o firagl.<sup>43</sup>

---

'important ... for its textual departures from D1 and D2' (ibid., tt. xx–xxi). Mae'r ffaith fod D3 yn darllen *Pepiau* yn §13 (James, *Rhygyfarch's Life of St. David*, td. 8 n. 13; Sharpe and Davies, 'Rhygyfarch's *Life of David*', td. 120 n. h), lle mae gweddill llawysgrifau Nero-Digby yn darllen *Proprium*, yn ddigon i ddangos nad copi o D1yw D3, gan mai *Pepiau* yw darlleniad fersiwn hŷn y fuchedd. Byddai'n fuddiol astudio darlleniadau D3 yn fanylach.

<sup>42</sup> Gol. gan Morfydd Owen yn Kathleen Anne Bramley et al. (goln), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), 26.124–5. Bydd golygiad newydd gan Ann Parry Owen yn ymddangos ar [www.seintiau.org](http://www.seintiau.org) yn y dyfodol. Trafodir y berthynas â Llanddewibrefi yn Morfydd E. Owen, 'Prolegomena to a Study of the Historical Context of Gwynfardd Brycheiniog's Poem to Dewi', *Studia Celtica*, 26–7 (1991–2), 51–79.

<sup>43</sup> R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2003), 8.77–8; Barry J. Lewis (gol.), *Medieval Welsh Poems to Saints and*

O gywydd o waith Ieuan ap Rhydderch y daw'r cwpled hwn. Brodor o ganolbarth Ceredigion oedd Ieuan, a byddai wedi adnabod ardal Llanddewibrefi yn dda. Cadarnheir y ffurf yn *-a* gan odl fewnol y gynghanedd sain (*da ... Fagna ... fagl*).

A barnu wrth yr enghreifftiau hynny, felly, adwaenid y cymeriad hwn fel *Magna* yn ogystal â *Magnus*, er gwaethaf y ffaith mai gŵr ydyw ym mhob fersiwn o'r hanes. Mae'r enw yn rhith a dynnwyd allan o *Landa Magna*. Pwy bynnag a aildehonglodd yr ansoddair Lladin yn enw personol, roedd yn dilyn patrwm cyffredin, gan fod nifer fawr o enwau eglwysi a phlwyfi Cymru'n cynnwys enw unigolyn, megis Tudno yn Llandudno neu Gybi yn Llanybi. Unwaith y crewyd y cymeriad rhithiol *Magna*, bu raid hefyd greu chwedl a fyddai'n rhoi cyfrif amdano. Lloffa yng nghronfa gyfoethog y bucheddau a wnaeth y dyfeisiwr anhysbys, gan ddewis yr hanes am godi mab i weddw o farw'n fyw, motïff enwog a'i darddiad yng ngwyrth yr Iesu'n adfywio mab y weddw yn Nain (Luc 7.11–17). Gwnaed *Magna*, felly, yn fab i weddw, a dywedwyd ei fod wedi ei godi o blith y meirw dan law Dewi Sant. Yn nes ymlaen, roedd yn chwith gan rywun neu rywrai fod y gŵr hwn yn dwyn enw Lladin a oedd mor amlwg yn fenywaidd, a throwyd *Magna* yn *Magnus*. Ni ddisodlwyd yr hen ffurf yn llwyr, fodd bynnag. *Magnus* a oedd yn uwchgynsail *Vita S. David* a'r rhan fwyaf o ddisgynyddion y testun hwnnw, ond mae'n bosibl fod y ffurf *Magna* wedi ei hadfer yn fwriadol mewn un copi diweddarach. Mwy sicr yw fod y ffurf wedi'i diogelu ym mha ffynhonnell neu ffynonellau bynnag a ddefnyddiwyd gan Gwynfardd Brycheiniog ac Ieuan ap Rhydderch. Mae hynny yn ei dro yn cynnig tystiolaeth galonogol fod fersiwn arall o hanes *Magnus/Magna* ar glawr, yn wahanol i eiddo Rhygyfarch; dadleuwyd uchod mai fersiwn wedi ei addasu at bwrpas y fuchedd a geir gan hwnnw, dadl a fyddai'n anghyfforddus o wan pe na bai rheswm da gennym dros gredu bod ffurfiau eraill ar y stori'n cylchredeg.

Os rhithiwyd *Magna/Magnus* allan o enw Lladin yr eglwys yn Llanfawr, tybed a ellid ei

---

*Shrines* (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies, 2015), 18.77–8.

alw'n *Mawr* yn y Gymraeg? Mae un bardd o ddiwedd yr Oesoedd Canol yn crybwyll sant a elwir *Mor*:

Sain Grigor, Sain Sjur, Mor, a Murog.<sup>44</sup>

Dichon fod Mor wedi ei rithio allan o Lanfor ym Mhenllyn, eglwys a elwid *Llanfawr* gynt, fel y gwelsom uchod. Ni wyddys a gyplyswyd Mor Sant â Llanfawr yng Ngheredigion yn ogystal. Yn wir, nid oes sicrwydd fod y lle hwnnw yn dal i fodoli ar ddiwedd yr Oesoedd Canol, gan nad oes sôn amdano mewn unrhyw ffynhonnell ddogfennol.

Enw arall y mae'n rhaid ei archwilio yw *Maen*, gan fod A. W. Wade-Evans wedi awgrymu mai ffurf Gymraeg ddiweddarach ar *Magnus* ydyw.<sup>45</sup> Ceir Llandyfân yn agos i Landeilo Fawr yn sir

---

<sup>44</sup> Thomas Roberts ac Ifor Williams (goln), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff and London: University of Wales Press, 1923), XVII.50 (awdl fawl i Harri VII). Enwir Mor eto mewn awdl gan Lewys Glyn Cothi yn ôl Walter Davies a John Jones (goln), *The Poetical Works of Lewys Glyn Cothi, a Celebrated Bard who Flourished in the Reigns of Henry VI, Edward IV, Richard III and Henry VII* (Oxford: The Cymmrodorion, 1837), XXV.63, ond nid yw'n eglur pa lawysgrif a ddilynwyd yno. Yn Aberystwyth, LIGC Peniarth 109, td. 11, sef testun yn llaw'r bardd ei hun, y darlleniad yw *mair* (E. D. Jones (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi: Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd ac Aberystwyth: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953), td. 11). Eto, fe enwir Mair yn ddiamwys yn y llinell flaenorol, a chan mai math o litani yw'r cyd-destun, disgwyliid enw gwahanol yma. Fe all, felly, mai *Mor* yw'r darlleniad cywir, a bod Lewys ei hun wedi gwneud camgymeriad yn Peniarth 109. Nid yw'r gynghanedd o gymorth gan fod yr enw yn dod ar ôl yr orffwysfa mewn cynghanedd draws.

<sup>45</sup> A. W. Wade-Evans, *Life of St David* (London: The Society for Promoting Christian Knowledge, 1923), td. 111. Cydnabyddir y tarddiad hwn, ond gan nodi posibiladau eraill, yn Patrick Sims-Williams, *The Celtic Inscriptions of Britain: Phonology and Chronology, c. 400–1200* (Oxford and

Gaerfyrddin, ac ymddengys mai'r enw anwes *Tyfaen* (*ty-* + *Maen*) sydd ynddi.<sup>46</sup> *Maen* hefyd oedd enw un o feibion Llywarch Hen.<sup>47</sup> Er bod y tarddiad yn gredadwy, nid oes unrhyw destun canoloesol yn cysylltu *Maen* neu *Tyfaen* â *Magnus/Magna*. Oni ddaw rhagor o wybodaeth am y sant i'r fei, ni ellir ei gyplysu â'r *Magnus/Magna* yng Ngheredigion.

## 6. *Vita S. Mauri*

Mae'n bosibl fod ysbardun mwy penodol i'r penderfyniad i gysylltu Mawr/Magna/Magnus â'r wyrth benodol a ddewiswyd. Roedd sant o'r enw *Maurus* (a roes *Maur* yn Ffrangeg), sant go enwog. Ymddengys am y tro cyntaf mewn testun a gyfansoddwyd gan y Pab Grigor Fawr tua diwedd y chweched ganrif, sef *Vita S. Benedicti*; yno portreedir Maurus fel disgybl sanctaidd a theyrngar i Benedict o Nursia.<sup>48</sup> Yn nes ymlaen, tua 868, lluniwyd buchedd gyflawn ar gyfer Maurus ei hun gan Odo o Glanfeuil, abaty yn agos i Angers yn Ffrainc.<sup>49</sup> Un o'r gwyrthiau a

---

Boston: The Philological Society, 2003), td. 159. Mae'r enw cyffredin *maen* yn frodorol ond yn tarddu o ffurf debyg iawn, \**magn-*, a welir yn yr enw lle Rhufeinig *Magnis*, gw. *GPC* d.g. *maen*<sup>1</sup>.

<sup>46</sup> Baring-Gould a Fisher, *Lives of the Welsh Saints*, iv, tt. 288–9; Owen a Morgan, *Dictionary of the Place-Names of Wales*, td. 234.

<sup>47</sup> Williams, *Canu Llywarch Hen*, tt. 20–1.

<sup>48</sup> Grigor Fawr, *Dialogi*, ii.4, 6–7; cyfieithiad yn Carolinne White (cyf.), *Early Christian Lives* (London: Penguin, 1998), tt. 161–204.

<sup>49</sup> Gol. yn *Acta Sanctorum* (Antwerp, 1643–), *Januarius, 1:1039–60: Vita auctore pseudo-Fausto, reapse Odone abate Glanfolensi and Miracula auct. eodem Odone*. Cyfieithiad Saesneg yn John Wickstrom (cyf.), *The Life and Miracles of St Maurus, Disciple of Benedict, Apostle to France* (Kalamazoo, Michigan: Cistercian Publications, 2008). Am y dyddiad, a thrafodaethau ar y testun, gw. John Wickstrom, 'Blessed Maurus of Glanfeuil, Cluny and Cîteaux', *Revue Bénédictine*, 113

dadogir ar Maurus yw iacháu mab gwraig weddw:

Inde igitur egressi, coeptum iter exequi attentius conabamur. Cumque nocte quadam ... hospitaremur, et mulier quaedam vidua, Remeia nomine, quae in contigua nobis commanebat domo, filium suum iam adolescentem, quem ex defuncto nuper viro suo susceperat, quique iam ultimum trahens flatum, vicinam in lecto iacens operiebatur mortem, insomnem plangendo et eiulando duceret noctem ... vir Dei tenerrime motus ad pietatem, se cum lacrimis Domino prostravit ...<sup>50</sup>

‘Wedi gadael, felly, y lle hwnnw, aethom ati’n ddiwyd i gwblhau ein taith arfaethedig. Un noson, tra oeddem mewn rhyw lety, roedd gwraig weddw o’r enw Remeia yn y tŷ nesaf atom, a hithau’n effro ar hyd y nos, yn crïo ac yn gweiddi mewn galar am ei mab. Gorwedddai hwnnw, nad oedd ond yn ifanc, mewn gwely gerllaw. Buasai ei dad farw yn ddiweddar; bellach, dyma yntau ar fin tynnu ei anadl olaf ac yn disgwyl angau. Cynhyrfwyd y gŵr sanctaidd i’r byw a thrugarhaodd wrth y wraig; ymestynnodd ar ei hyd ar y llawr o flaen Duw ac wylo ...’

Mae’r tebygrwydd i’r wyrth a gyflawnodd Dewi yn drawiadol. Yn y ddau achos, mae’r sant ar daith i rywle arall. Tynnir ei sylw gan wraig yn galaru. Gwraig weddw ydyw, a’r dyn marw, neu’r dyn claf yn yr ail achos, yn fab iddi. Yn y ddau achos, mae’r sant yn trugarhau wrth y weddw ac yn

---

(2003), 124–34 a John Wickstrom, ‘Claiming St Maurus of Glanfeuil: An Eleventh-Century Sermon from Fossés’, *Revue Bénédictine*, 123 (2013), 274–90.

<sup>50</sup> Dyfynnir o’r golygiad yn *Acta Sanctorum* (gw. n. 45 uchod), v.23–4 (td. 1044).

ymroi i achub y dyn ifanc. Ac yn sgil hyn oll, mae'r dyn ifanc ei hun yn ymroi i fyw bywyd sanctaidd:

Vocabatur autem adolescens Eligius, qui postea (ut nobis relatum fuit) in monasterio Litinensi monachus est effectus.

‘Enw’r gŵr ifanc oedd Eligius, ac yn sgil hynny (yn ôl a ddywedwyd wrthym) daeth yn fynach ym mynachlog Lérins.’

Mae un pwynt arall yn haeddu sylw. Yn y fuchedd Gyfandirol, mae'r dyn ifanc yn gorwedd yn anymwybodol am ddeuddydd cyn iddo gael ei iacháu (*ille uero, qui duobus iam diebus sine sensu et uoce iacuerat*). Crybwyllir yr un ysbaid yn union yn awdl Gwynfardd Brycheiniog, yn y llinellau a ddyfynnwyd uchod. Nid oes sôn amdani ym muchedd Ladin Dewi.

Dyma, felly, sant o'r enw Maurus yn cyflawni gwyrth dra thebyg i'r un a wnaeth Dewi er lles y dyn ifanc a gysylltid â Llanfawr. Gall mai cyd-ddigwyddiad ydyw – wedi'r cwbl, nodwyd uchod fod y wyrth yn deillio yn y pen draw o'r efengyl – ac os felly, gellir anwybyddu *Vita Mauri*. Dylid o leiaf nodi'r posibilrwydd, fodd bynnag, mai o fuchedd Maurus y cafwyd y wyrth a gyflawnodd Dewi Sant er lles Mawr/Magna/Magnus. Os felly y bu, mae'n rhaid cydnabod bod y sawl a fu'n gyfrifol am y benthyg yn dilyn mympwy a ysgogwyd gan ddim mwy na thebygrwydd enwau Maurus Sant yn Ffrainc a Mawr o Lanfawr yn nyffryn Teifi. Mae'n ddolen gyswllt fregus, a dweud y lleiaf, ond eto rydym eisoes wedi gweld mor fentrus y gallai bucheddwyr yr Oesoedd Canol fod wrth drin enwau priod: pwy a fyddai'n disgwyl y byddid yn troi'r ansoddair Lladin cwbl dryloyw *magna* yn enw personol? O leiaf gellir awgrymu y byddai *Maurus* yn enw cyfarwydd. Sant uchel ei fri oedd Maurus, yn enwedig yn Ffrainc, ac roedd ymlyniad wrtho wedi cyrraedd Lloegr

erbyn dechrau'r unfed ganrif ar ddeg.<sup>51</sup> Sianel bosibl arall, heblaw Lloegr, yw Llydaw, gan nad yw Angers yn bell o ffin dde-ddwyreiniol Llydaw, ac roedd cysylltiadau Llydewig gan Glanfeuil ei hun.<sup>52</sup>

Dadleuwyd uchod nad Rhygyfarch a luniodd hanes Mawr/Magna/Magnus gyntaf. Daeth y chwedl i fodolaeth cyn ei amser ef, er mwyn esbonio sut y sefydlwyd Llanfawr a sut y daeth yn eiddo i Landdewibrefi. Gwnaeth Rhygyfarch addasiad cwta a chryno ohoni i'w hymgorffori ym muchedd Dewi. Un manylyn a hepgorodd oedd yr ysbaid o ddau ddiwrnod, manylyn a gadwyd gan Gwynfardd Brycheiniog, a oedd wedi bod yn pori yn archif Llanddewibrefi, mae'n debyg. Mae cyffelybrwydd y stori a'r enw yn *Vita Mauri* yn awgrym bosibl – ni fynnwn ddadlau'n gryfach na hynny – fod y fuchedd honno ar gael i'r awdur dienw a greodd hanes coll Llanfawr, rywbryd cyn i Rhygyfarch ei ddefnyddio ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg.

### 7. Mamau seintiau Iwerddon

Hyd yn hyn, dadleuwyd bod yr enw lle *Llanfawr (Landa Magna)* wedi esgor ar gymeriad gwrywaidd ffug-hanesyddol, Magnus neu Magna. Fe enwir Magna, fel y gwelsom ar ddechrau'r erthygl hon, mewn un ffynhonnell arall, ond yno mae'r cymeriad yn ymddangos ar wedd gwbl wahanol, fel merch ac fel chwaer i Dewi Sant. Traethawd am famau seintiau Iwerddon yw'r ffynhonnell honno sy'n digwydd am y tro cyntaf yn y llawysgrif fawr enwog, Llyfr Leinster, yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif. Ond mae'n debygol ei fod gynt yn llawysgrif Rhydychen, Bodley

---

<sup>51</sup> Olrheinir twf y cwlt yn Wickstrom, 'Blessed Maurus of Glanfeuil'. Erbyn canol yr unfed ganrif ar ddeg ymddangosai Maurus yng nghalendrau rhyw ddeg o eglwysi mawr Lloegr, gan gynnwys cadeirlannau Caer-gaint a Chaer-wynt.

<sup>52</sup> Gw. e.e. Julia M. H. Smith, *Province and Empire: Brittany and the Carolingians* (Cambridge: Cambridge University Press, 1992), td. 135, am eiddo a ddelid gan Glanfeuil yn Llydaw.



Rawlinson B.502, llyfr sy'n mynd â ni yn ôl beth amser eto, tua'r flwyddyn 1130 yn fras.<sup>53</sup> Mae'r traethawd yn rhan o gasgliad o ddeunydd achyddol a hynafiaethol am seintiau Iwerddon. Y testun pwysicaf yno yw'r prif gasgliad o achau'r seintiau, sy'n olrhain eu tras drwy eu tadau. Testun tebyg i *Bonedd y Saint* yw hwn, ond yn hwy ac yn llawnach o lawer. Math o gymar iddo yw'r traethawd ar y mamau. Ni wyddys pa bryd y cyfansoddwyd hwnnw yn union. Dyma a ddywed am Magna:

Magna siur Dauida Cilli Mune mathair Šetna m. Essen do Artragib Cliach. Is e congaib Cluain mBicc eter Chrotta Cliach \*7 Sliab Muicce. Is e fil i Cind Šale \*7 a da brathair .i. Mogobba \*7 Moeltioc.<sup>54</sup>

‘Magna, chwaer Dewi o Fynyw, mam Sétna mab Essiu o hil Artraige Cliach. Hwnnw a sefydlodd Clonbeg rhwng Mynyddoedd y Galtees a Slieve-na-Muck. Efê sy'n gorwedd yn Kinsale ar y cyd â'i ddau frawd, Mogobba a Moéltiúc.’

Yn ôl y cofnod hwn, felly, roedd Magna, chwaer Dewi Sant, yn fam i dri o seintiau Iwerddon. Gorweddent ill tri yn Kinsale yn swydd Corc, ac un ohonynt, Sétna, oedd sefydlydd Clonbeg yn swydd Tipperary. Yn anffodus, nid oes unrhyw sôn am y gwŷr hyn ym mhrif gorff achau'r seintiau,

---

<sup>53</sup> Llyfr Leinster: Duly, Llyfrgell Coleg y Drindod, 1339, t. 372, colofn a–td. 373 colofn b.

Golygiad diplomatig yn Anne O'Sullivan (gol.), *The Book of Leinster Formerly Lebar na Núachongbála*, vi (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies, 1983), tt. 1692–7. Golygiad beirniadol yn Ó Riain, *Corpus Genealogiarum*, tt. 169–81 (§722). Am y testun a fuasai ar ddalennau coll llawysgrif B.502, gw. *ibid.*, tt. xxvii a 220.

<sup>54</sup> Ó Riain, *Corpus Genealogiarum*, td. 179 (§722.94). Pan ddywedir bod (Gwyddeleg *fil*) hwn-a-hwn mewn lle penodol, yr ystyr yw ei fod wedi ei gladdu yno neu mai yno yr oedd ei greiriau. Ychwanegwyd y ferf Gymraeg *gorwedd* wrth gyfieithu er mwyn cyfleu hynny.

sef achau'r tadau. Y cofnod hwn, felly, yw'r unig ganllaw sydd gennym. Mae'n enwi tad honedig y tri, sef Eissiu o hil Artraige Cliach. Trigai'r boblogaeth honno yn yr ardal a elwid Clú, a ymestynnai dros ddwyrain swydd Limerick a'r ffin â swydd Tipperary.<sup>55</sup> Mae Clonbeg hithau yn nyffryn Aherlow yn rhanbarth *Clú*. Ceir un testun arall sy'n enwi Mogobba. Buchedd ydyw, sef *Vita S. Albei*, testun a allai fod mor gynnar â'r wythfed ganrif.<sup>56</sup> Sant eithriadol o bwysig oedd Ailbe, sant amlycaf talaith Munster yn yr Oesoedd Canol cynnar. Ei brif eglwys oedd Emly yn swydd Tipperary, o fewn rhanbarth Clú. Yn y fuchedd hon, defnyddir dwy ffurf arall ar enw Mogobba, sef *Mogopoc* a *Gopbanus*.<sup>57</sup> Anfonir Mogopóc i weini fel cogydd ar ddau sant arall. Cyplysir ef â Kinsale, gan ddangos fod a wnelom yma â'r un cymeriad ag a enwir yn y traethawd am famau'r seintiau:

Quodam tempore misit Albeus duos viros, silicet Lugith et Keilchenne, qui sunt hi Formuig, ut novum ordinem celebrandi a Roma deducerent, misitique cum eis cocum, qui ministraret illis, silicet Mogopoc, qui est hi Kinn Sali.<sup>58</sup>

---

<sup>55</sup> *Clíach* yw cyflwr genidol *Clú*. Am y lle, gw. Pádraig Ó Riain et al., *Historical Dictionary of Gaelic Placenames*, 5: *Clais an Chairn–Cnucha* (London: Irish Texts Society, 2013), tt. 71–3 s.v. *Clú 1*.

<sup>56</sup> M. Herbert, 'Literary sea-voyages and early Munster hagiography', yn R. Black et al. (goln), *Celtic Connections: Proceedings of the Tenth International Congress of Celtic Studies*, i: *Language, Literature, History, Culture* (East Linton: Tuckwell Press, 1999), tt. 182–9. Ffefrir dyddiad diweddarach yn Pádraig Ó Riain, *A Dictionary of Irish Saints* (Dublin: Four Courts, 2011), td. 58.

<sup>57</sup> Cyfetyb *Gopbanus* i'r enw Gwyddeleg llawn, sef *Gopán* (*Gobán* mewn orgraff ddiweddar). Ffuriau anwes ar *Gobán*, yn dilyn patrymau cyfarwydd, yw *Mogobba* a *Mogopóc*.

<sup>58</sup> W. W. Heist (gol.), *Vitae Sanctorum Hiberniae ex codice olim Salmanticensi nunc Bruxellensi*

‘Un tro anfonodd Ailbe ddau ŵr, sef Lugaid a *Keilchenne*, sydd yn gorwedd yn *Formach*, i Rufain i ymofyn dull newydd o weini’r offeren, ac anfonodd gogydd gyda hwy i wasanaethu arnynt, sef Mogopóc, hwnnw sydd yn gorwedd yn Kinsale.’

Honnid – yn Emly, o leiaf – fod Mogobba’n ddisgybl o fath i Ailbe. Heblaw hynny, ni ddywed y ffynonellau Gwyddelig ddim am seintiau Clonbeg a Kinsale.

Rywffordd, rywsut, mae’n rhaid bod y ‘Magna, chwaer Dewi Sant’ a adnabyddid yn Iwerddon yn cynrychioli’r Magna neu Magnus a berthynai i Lanfawr yng Nghymru. Go brin y gellir credu bod y ddau’n annibynnol ar ei gilydd, o ystyried mor debyg yw eu henwau, heb sôn am eu cyswllt â Dewi Sant. Roedd Dewi’n enwog yn Iwerddon ers yn gynnar, a rhesymol yw credu bod yr enw Magna wedi cyrraedd Iwerddon drwy gyfrwng rhyw ffynhonnell a ymwnâi â Dewi. Ofer yw dyfalu ynghylch natur y ffynhonnell: mae’n annhebygol mai buchedd Dewi gan Rhygyfarch ydoedd, gan mai *Magnus* yw’r prif ddarlleniad yn nhraddodiad llawysgrifol y testun hwnnw, fel y gwelsom uchod.<sup>59</sup> Sut bynnag y daeth Magna’n hysbys yn Iwerddon, gwnaed dau newid mawr i’r cymeriad yno. Yn gyntaf, fe’i trowyd yn ferch, diau am fod yr enw yn ymddangos fel un benywaidd. Yn ail, trawsffurfiwyd Magna’n berthynas agos i Dewi Sant. Yn Iwerddon yn unig y mae tyst i’r honiad fod Magna’n chwaer i Dewi, ac nid yw’n debygol y byddai’r fath honiad yn dderbyniol yng Nghymru. Rhan bwysig o fywgraffiad Dewi yw’r gred iddo gael ei genhedlu drwy drais. Nod y stori (sydd yn perthyn i ddsbarth o storïau a adroddir am seintiau eraill hefyd) yw pwysleisio ymroddiad ei fam, Non, i ddiweirdeb: gan na chydysniodd hi â’r weithred rywiol, ni

---

(Bruxelles: Société des Bollandistes, 1965), td. 128. *Formach* yw rhanbarth *Fir Maige*, Fermoy, bellach yn swydd Corc.

<sup>59</sup> Dyma awgrym pellach fod y chwedl yn cylchredeg yn annibynnol ar waith Rhygyfarch.

welid bai arni am dorri ei hadduned i ymgadw rhag cysgu gyda gŵr.<sup>60</sup> Mae'n anodd credu, felly, y byddai croeso yng Nghymru i'r syniad fod gan Dewi chwaer a genhedlwyd (mae'n rhaid) ar ryw achlysur arall. Efallai y gellid bod wedi dygymod â hanner chwaer, a fyddai'n ferch i dad Dewi o wraig arall, ond erys yn ffaith na sonnir amdani o gwbl mewn unrhyw ffynhonnell y tu allan i Iwerddon.

Haws derbyn mai gofynion rhyw eglwys yn Iwerddon a adlewyrchir yn y cofnod am Magna. Diau mai Kinsale yn swydd Cork ydoedd, oherwydd yno yr oedd Sétina, Mogobba a Moéltióc yn gorwedd ill tri. Y tebyg yw fod rhywun yn Kinsale wedi dymuno dyrchafu seintiau arbennig y lle hwnnw. A bwrw bod enw eu tad wedi ei hen sefydlu, dichon fod mwy o le i ymyrryd ag ochr y fam. Petai modd cynysgaeddu'r tri â mam a oedd yn perthyn i sant enwog, fe wnâi hynny'r tro yn burion. A dyna fenthyca enw Magna o draddodiadau Dewi Sant, a'i throi yn chwaer i Dewi ac yn fam i seintiau Kinsale a Clonbeg. Mae'r dewis yn ddiddorol, o gofio y byddai wrth reswm ddewisiadau aneirif eraill ar gael. Awgryma fod rhyw fynd a dod yn digwydd rhwng Kinsale a Thyddewi, peth na fyddai'n syndod o gwbl gan fod Kinsale yn borthladd ar arfordir swydd Cork. Ysywaeth, ni ellir gwybod a wnaeth cymhelliad mwy penodol lywio dewis y sawl a greodd 'Magna, chwaer Dewi'.

### *Diwedd glo*

Hanes troellog a throfaus fu hanes Magna. Man cychwyn y cyfan oedd eglwys Llanfawr, yn nyffryn Teifi yng Ngheredigion. Yn Lladin adwaenid hi fel *Landa Magna*. Ymddengys fod hanes y

---

<sup>60</sup> Gw. Sharpe a Davies, 'The Life of St David', 112–13 (§4): *que nec antea nec post uirum agnouit* 'nad ymgyfathrachodd â gŵr na chyn hynny, nac wedi hynny'. Adroddid stori debyg am Tenau, mam Cyndeyrn o Glasgow, gw. Alexander Penrose Forbes (gol.), *Lives of S. Ninian and S. Kentigern Compiled in the Twelfth Century* (Edinburgh: Edmonston and Douglas, 1874), tt. 125–8, 245–7.

sefydliad yn un cymhleth, os yw'n wir ei fod yn dwyn rhyw berthynas â Briog Sant ac â Pedr Sant.<sup>61</sup> Ar ryw adeg daethpwyd i gredu mai enw person oedd *Magna*, a dyna greu Magna neu Magnus Sant. Yna, bu raid dyfeisio cefndir i'r cymeriad. Mae'n bosibl fod ysbardun i'w gael yn nhraddodiadau Maurus Sant yn Ffrainc. Yn olaf, pan gludwyd rhyw ddeunydd am Dewi, gan gynnwys yr enw *Magna*, dros y môr i Iwerddon, aeth rhyw eglwyswr o Wyddel ati i ailddyfeisio hanes Magna yn llwyr at ei bwrpasau ef ei hun.

Cynigiai'r traddodiad hagiograffaid nid yn unig deunydd – motiffau a storïau – ond hefyd fethodoleg ysgolheigaidd a lywiau waith y bucheddwyr. Adlewyrchir y dulliau ymchwil hyn yn hanes Magna: tynnu enw sant o enw eglwys, cysylltu mân sant â sant pwysfawr, ailgylchu hanesion am wyrthiau, a chreu perthnasau teuluol rhwng y seintiau a'i gilydd a rhwng y seintiau a llinachau secwlar pwerus. Mae'r patrymau hyn, a llu o rai eraill, mor gyson fel bod modd mentro llenwi'r bylchau yn ein ffynonellau drwy fwrw amcan am y pethau nas dywedir ynddynt. Felly, daethpwyd uchod i'r casgliad fod Magnus/Magna yn sant a gysylltid ag eglwys a hawlid, yn ei thro, gan Llanddewibrefi, er na ddywedir hynny yn unman. Mae'n rhaid cydnabod bod perygl o orddehongli ac o orddyfalu; serch hynny, credaf fod y dystiolaeth yn gryf o blaid bwrw bod eglwys a elwid Llanfawr, *Landa Magna*, yng Ngheredigion. Credaf hefyd ei bod yn dra thebygol fod y Magnus/Magna a gyplysid â Dewi Sant wedi'i greu ar sail yr enw hwnnw. Mae hynny yn ei dro'n awgrymu bod Llanddewibrefi'n hawlio eglwys Magna. Mwy beiddgar yw'r ddamcaniaeth am ddyllanwad buchedd Gyfandirol Maurus: posibilrwydd ydyw, nid mwy na hynny.

Cydnabuwyd ar ddechrau'r astudiaeth hon fod angen cyfiawnhau astudio cymeriad megis

---

<sup>61</sup> Posibiliadau y mae'n rhaid eu cydnabod yw dryswch testunol a dyfalu gan gopiwyr. Digon hawdd yw derbyn, er enghraifft, fod Simwnt Fychan wedi troi *Llanfawr* yn *Llanngoed Mawr* ac nad oedd a wnelo Llanngoedmor â'r cwestiwn. Gellid dychmygu prosesau testunol tebyg yn rhoi bod i'r cyswllt â Pedr, er enghraifft, yn hytrach na bod rhyw hawl hanesyddol gan glerigwyr Llanbedr Pont Steffan i Lanfawr.

Magna na fodolodd erioed. Dadleuwyd bod diddordeb arbennig yn perthyn i ddyfeisgarwch yr awduron a greodd fucheddau'r seintiau. Mae'r testunau a luniasant ymhlith y tystion gloywaf i hunaniaethau lleol, cenedlaethol, sefydliadol, cymunedol a chrefyddol a gadwyd inni. Camp yr awduron oedd creu a chynnal cof eu cymuned am y gorffennol, cof defnyddiol, bid sicr, ac os bu iddynt ymyrryd â'r cof hwnnw mewn modd sy'n ymddangos yn annerbyniol yn ôl safonau'r hanesydd heddiw, eto i gyd mae'r egwyddorion a ddilynent wrth wneud hynny yn werth eu hastudio ynddynt eu hunain.

Gwers arall i'w dysgu o esiampyl Magna, 'chwaer Dewi Sant', yw mor gamarweiniol yw'r syniad positiffaidd fod y gweddillion o lenyddiaeth yr Oesoedd Canol sydd gennym heddiw yn adlewyrchiad teg o'r hyn a fu. Arall yw neges Magna. Eisoes pan gydiodd Rhygyfarch yn ei ysgrifbin, roedd y traddodiadau am Magna a Llanfawr nid yn unig wedi egino ond wedi tyfu'n gnwd. Trwy'r gwyll, gallwn weld carfanau o glerigwyr yn hawlio Llanfawr: rhai'n dwyn baner Briog Sant, eraill Pedr efallai, eraill eto Dewi. Clywir atseiniau rhyw frwydr am awdurdod na wyddom ei chanlyniad. *Disiecta membra* yn unig sydd gennym i goffâu'r frwydr honno, a'r rheini ar wasgar drwy weithiau a gyfansoddwyd at bwrpasau eraill.

Yn olaf, rhyfedd meddwl y gallai lle a fu'n destun i gymaint o ddyfeisio a dyfalu ddiplannu mor llwyr fel na wyddom hyd yn oed ei safle. Nid oes na siw na miw o'r enw *Llanfawr* yn yr arolwg mawr o eglwysi Lloegr a Chymru a wnaed yn 1291–2.<sup>62</sup> Onid yw'n llercian y tu ôl i enw cyfarwydd, rhaid cymryd, hyd yn oed mor gynnar â hynny, fod ysblander *Landa Magna* wedi hen ddarfod.<sup>63</sup>

---

<sup>62</sup> Gw. nodyn 24 uchod.

<sup>63</sup> Ceir yr ymadrodd *hyd Wyl vangna* yn Patrick K. Ford (gol.), *Ystoria Taliesin* (Cardiff: University of Wales Press, 1992), td. 84 (ll. 653). Ymddengys, fodd bynnag, mai cyfeiriad at Ddydd y Farn (a elwid *dies magna* yn Lladin weithiau) ydyw, ac nid at ŵyl a berthynai i Magna Sant. Diolchaf i Marged Haycock am y cyfeiriad.